# CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 16 EBRILL 2015 YN NHŶ HASTINGS

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; a, Mr David Powell.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr David Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Tom Jenkins (Swyddog Arolygu); Mr Ralph Handscomb (Swyddog Arolygu) a Miss Caroline Roe (Cynorthwyydd Swyddfa).

**Ymddiheuriadau:** Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygu)

**Amser dechrau:** 9:30 am
**Amser gorffen:** 11:50 am

## 1. Datganiadau o fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

2.1. Cyhoeddodd y Cadeirydd fod Pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu cyhoeddi eu hadroddiadau ar dystiolaeth a roddwyd ar y Bil Llywodraeth Leol ar ddechrau mis Mai.

2.2. Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai ef ac aelodau eraill o'r Comisiwn yn cyfarfod â'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar 21 Ebrill.

2.3. Cyhoeddodd y Cadeirydd y cynhelir cyfarfod rhwng y Comisiwn, y Panel Tâl Annibynnol a Llywodraeth Cymru ar 29 Ebrill ynghylch ymgysylltu â rhanddeiliaid.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2015

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2015.

## 4. Materion yn codi

4.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 31 Mawrth gan y Prif Weithredwr.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad yn ei gyfanrwydd, a nodwyd y cynnydd diweddaraf ar y materion canlynol:

**Mater 1** **(Strategaeth TG)** rhoddodd y Swyddog Arolygu ddiweddariad llafar. Mae holl gyfrifiaduron y Comisiwn yn cael eu diweddaru i Windows 7 gan Atos ar hyn o bryd. Er gwaethaf rhai problemau cychwynnol, mae'r mater hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Y cam nesaf yw gosod fersiwn newydd MapInfo 12.5 ar gyfrifiaduron y Comisiwn.

**Mater 2** **(Holiadur Ôl-arolwg)** mae mân newidiadau yn cael eu gwneud i'r holiadur a dylai fod yn barod erbyn diwedd y mis.
**Gweithredu: Cynorthwyydd Swyddfa a'r Swyddog Arolygu**

**Mater 4** **(Arolygon Prif Ardaloedd)** cytunodd y Comisiwn i ailedrych ar hyn ym mis Tachwedd 2015.

**Mater 9** **(Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth CFfG/CFfDLC)** mae'r Comisiwn wedi llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, ac mae bellach gyda Swyddfa'r Cabinet er mwyn iddynt ei lofnodi.

**Mater 29** **(Cyfarfod â'r Panel Tâl Annibynnol a Llywodraeth Cymru)** trafododd y Comisiwn y cyfarfod sydd ar ddod, ynghyd â'r pynciau a fyddai'n cael eu codi yn y cyfarfod.

## 5. Papur Gwyn: Grym i Bobl Leol

5.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 9 Ebrill 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr. Roedd yr adroddiad yn darparu llythyr ymateb drafft i'r Papur Gwyn a gyhoeddwyd ar 3 Chwefror, a'r agweddau lle y gallai effeithio ar y Comisiwn a'i weithrediadau.

5.2. **Penderfynwyd** cytuno â chynnwys y llythyr a chytunwyd y byddai'r Dirprwy Brif Weithredwr yn gwneud mân newidiadau iddo cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
**Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr**

5.3. **Cytunwyd** y byddai'r ymateb terfynol yn cael ei arwain at Lywodraeth Cymru cyn y cyfarfod â Phrif Weinidog Cymru ar 21 Ebrill 2015.

## 6. Cynllun Gweithredol

6.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 31 Mawrth gan y Prif Weithredwr. Penderfynodd y Comisiwn wneud mân newid i adran pedwar y cynllun gweithredol.

6.2. **Penderfynwyd** derbyn y Cynllun Gweithredol drafft, yn amodol ar y mân newid i adran pedwar.

6.3. **Cytunwyd** y byddai'r Cynllun Gweithredol yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru wedi i'r newid gael ei wneud.

## 7. Datganiad Llywodraethu 2014-15

7.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 8 Ebrill 2015 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. Cydnabu'r Comisiwn na fyddai'r Rheolwr Cyllid yn gallu cwblhau'r Datganiad Llywodraethu nes i'r Comisiwn gael yr adroddiad archwilio mewnol gan Deloitte. **Cytunodd** y Comisiwn i ddiwygio adran 3.6 y datganiad hefyd, yn ymwneud â derbyn tendrau.

7.3. **Penderfynwyd derbyn** yr adroddiad, yn amodol ar yr ymateb gan Deloitte a'r mân newid i adran 3.6 y datganiad.
**Gweithredu: Rheolwr Cyllid**

## 8. Rheoli Risg

8.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 31 Mawrth 2015 gan y Rheolwr Cyllid. Nid oedd unrhyw faterion newydd i'w hystyried, felly nid oedd unrhyw newidiadau i'r Gofrestr Risg. Nodwyd y caiff y gweithdrefnau ymsefydlu ar gyfer aelodau newydd y Comisiwn eu hadolygu.
**Penderfynodd y Comisiwn nodi a derbyn** yr adroddiad.

## 9. Adroddiad Cyllidol

9.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 8 Ebrill 2015 gan y Rheolwr Cyllid. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar ôl ildio cyllid a chostau cynyddol meddalwedd, gan nodi bod angen rhywfaint o eglurhad o hyd ynghylch costau trydan ac yswiriant adeiladau a godir gan landlord Tŷ Hastings.

9.2. **Penderfynwyd nodi a derbyn** yr adroddiad.

## 10. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ar 11 Chwefror 2015

10.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 25 Mawrth 2015 gan y Rheolwr Cyllid, cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror, ac adroddiad Cadeirydd y pwyllgor. Nodwyd bod y pwyllgor wedi cytuno mabwysiadu hunanasesiad blynyddol o wasanaethau archwilio mewnol, ac y byddai'n ystyried y Gofrestr Risg Pensiynau a Phrawf Parhad Busnes. Nodwyd newidiadau i drefniadau archwilio mewnol ac allanol ar gyfer y Comisiwn yn y dyfodol.

10.2. **Penderfynodd y Comisiwn nodi a chytuno** â'r cofnodion a'r adroddiadau, yn amodol ar ofyn i'r pwyllgor ystyried sut mae'r Comisiwn yn mynd i'r afael â materion twyll.

**11. Adroddiad Cynnydd ar Arolygon**

11.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 9 Ebrill 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

11.2. Nid oedd unrhyw newid i'r cynnydd ar arolygon etholiadol. Rhoddwyd diweddariad i'r Comisiwn ar y cynnydd a wnaed ar arolygon cymunedol Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Sir y Fflint, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg, sydd yn yr arfaeth.

11.3. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

**12. Calendr digwyddiadau**

12.1. Cytunodd y Comisiwn i symud cyfarfodydd y Comisiwn ym mis Mai a mis Gorffennaf. Bellach, cynhelir cyfarfod mis Mai ar 14 Mai, a chynhelir cyfarfod mis Gorffennaf ar 21 Gorffennaf.

12.2. **Nodwyd** y calendr digwyddiadau.

**13. Swyddfa Archwilio Cymru: Newid trefniadau archwilio**

13.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 8 Ebrill 2015 gan y Rheolwr Cyllid, yn amlinellu'r newidiadau a osodwyd gan drefniadau contractio Swyddfa Archwilio Cymru, lle mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnig y caiff archwiliadau ariannol yn y dyfodol eu cynnal gan ei staff ef.

13.2. **Nododd** y comisiwn yr adroddiad.

**14. Unrhyw fater perthnasol arall**

14.1. Trafododd y Comisiwn benodiad Aelod Annibynnol y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg, a chytunwyd i ymchwilio i'r posibilrwydd o ymestyn y penodiad am 12 mis arall o 1 Medi – yn amodol ar gytundeb yr Aelod Annibynnol – ac ystyried y sefyllfa yn y cyfarfod nesaf.

14.2. Caiff canlyniadau'r arolwg staff eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn, a chynhelir cyfarfod Is-bwyllgor y Gweithlu ar ôl y cyfarfod hwnnw i drafod y canlyniadau ymhellach.

**15. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Iau 14 Mai 2015.**